

## CYFFES FFYDD

### 12. Am etholedigaeth gras

Darfu i Dduw, er tragwyddoldeb, ethol a neilltuo Crist i fod yn Bencyfamodwr, Cyfryngwr, a Machniydd i'w eglwys, i'w phrynu a'i gwaredu (a). Hefyd, etholwyd gan Dduw yn Nghrist dyrfa nas gall neb ei rhifo, allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a chenedl, i sancteiddrwydd a bywyd tragwyddol (b) ; a threfnwyd pob moddion i gael hynny yn sicr i ben (c).

Ac y mae yr etholedigaeth hon yn dragwyddol (d), yn gyfiawn (e), yn ben arglwyddiaethol (f), yn ddiamodol (g), yn neilltuol neu bersonol (h), ac yn 'anghyfnewidiol (i). Ac nid yw etholedigaeth gras yn drygu neb; er dar fod i Dduw yn gyfiawn adael rhai heb eu hethol, eto, ni wnaeth efe ddim cam â hwynt; y maent yn yr un cyflwr â phe na buasai etholedigaeth yn bod; ac oni buasai etholedigaeth gras, ni buasai cadwedig un cnawd (j).

#### **12. On the Election of Grace.**

*God from eternity elected and appointed Christ to be the covenant head, mediator, and surety of his church, to redeem and save it (a). God elected also in Christ a great multitude, which no man can number, out of every kindred, and tongue, and people, and nation, to holiness and eternal life (b) : and appointed all the means necessary to accomplish this end (c). This election is eternal (d), righteous (e), sovereign (f), unconditional (g), particular or personal (h), and unchangeable (i). The election of grace wrongs no one : though God in righteousness left some persons unpredestinated, yet, he did them no injustice; they are in the same condition in which they would have been, if there had been no*

*election; and if there had been no election of grace, no flesh would have been saved (j).*

**(a) Esea/Isa 42:1; Salm/Psa. 89:19; Eff./Eph. 1:22,23, 5:25; Heb. 7:22; 1 Pedr/1 Pet. 1:18,19; Gal. 1:4; Math./Matt. 1:21.**

**(b) Eff./Eph. 1:4,11; Ioan/John 13:18; Rhuf./Rom. 8:29,30,33; 2 Tim. 1:9; 1 Thes. 5:9; Dat./Rev. 5:9,10, 7:9.**

**(c) Math./Matt. 28:18-20; Actau/Acts 26:18.**

**(d) Eff./Eph. 1:4, 3:11.**

**(e) Rhuf./Rom. 9:13,14; Salm/Psa. 145:17.**

**(f) Rhuf./Rom. 9:17-24.**

**(g) Eff./ Eph. 1:5-11; Math./Matt. 11:25,26; Luc/Luke 12:32.**

**(h) Ioan/John 13:18.**

**(i) Rhuf./Rom 9:11,28,29.**

**(j) Math./Matt. 24:22,24,31; Rhuf./Rom. 11:23.**